

UCAS

Cynllun Iaith Gymraeg 2025 - 2028

**Paratowyd yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

RHAGAIR

Hwn yw'r Cynllun Iaith Gymraeg ("y cynllun") a gyflwynir gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS), a'i systemau derbyn cysylltiedig, ac a baratowyd yn unol ag adran 14 (i) o Ddeddf Iaith Gymraeg 1993. Mae'r cynllun hwn, a gymeradwywyd ar **04 Mehefin 2025**, yn diwygio ac yn disodli cynllun 2010 - 2013.

CYSYLLTU

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg, cysylltwch â:

UCAS

Rosehill

New Barn Lane

Cheltenham

Swydd Gaerloyw

GL52 3LZ

E-bost: customersupport@ucas.ac.uk

CYNNWYS

Cyflwyniad	4
Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth	6
Wyneb cyhoeddus UCAS	7
Rhoi'r cynllun ar waith	10
Atodiad A - Cynllun Gweithredu	15

Mae UCAS wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn esbonio sut y bydd UCAS yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a chyfathrebu â siaradwyr Cymraeg.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae UCAS yn elusen annibynnol sy'n bodoli i gyflawni ei diben elusennol, i weithredu fel y gwasanaeth derbyn cenedlaethol ar y cyd ar gyfer myfyrwyr, prifysgolion a cholegau. Fel elusen, rhaid i waith UCAS fod er "budd y cyhoedd" ac nid er elw.

I gefnogi ei waith fel elusen, mae gan UCAS is-gwmni masnachu, UCAS Media Limited (UCAS Media) sy'n cynhyrchu incwm drwy weithio gyda phartneriaid masnachol i gynnig amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gwsmeriaid sy'n fyfyrwyr a phrifysgolion a cholegau, yn ogystal â busnesau a chyflogwyr. Dim ond gyda chwmnïau sy'n bodloni meini prawf gweithgarwch masnachol a gymeradwywyd gan UCAS y mae UCAS Media yn gweithio.

Nid yw UCAS yn derbyn unrhyw gymorth ariannol uniongyrchol gan y llywodraeth felly mae gweithgarwch masnachol yn helpu i gyflawni amcanion elusennol UCAS a chadw costau'n isel ar gyfer myfyrwyr a darparwyr addysg.

Caiff UCAS ei lywodraethu gan ei Fwrdd Ymddiriedolwyr. Ar Fwrdd UCAS mae cydbwysedd o Ymddiriedolwyr o gefndiroedd addysg uwch ac addysg bellach, gan gynnwys tri phennaeth darparwyr addysg uwch ac Ymddiriedolwyr annibynnol.

- 1.2. Mae'r sefydliad yn gofalu am geisiadau gan israddedigion i brifysgolion a cholegau'r DU a cheisiadau Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg (TAR) i brifysgolion Cymru, ynghyd â cheisiadau i'r ysgolion cerddoriaeth (conservatoires) ledled y DU drwy gynllun Conservatoire UCAS. Mae dros 300 o ddarparwyr Addysg Uwch yn defnyddio gwasanaethau derbyn UCAS. Mae UCAS yn cyflogi dros 600 o aelodau staff ac mae wedi'i leoli yn Cheltenham, Swydd Gaerloyw.
- 1.3. Mae UCAS yn ceisio datblygu a gwella'r gwasanaethau a'r cynnyrch y mae'n eu cynnig yn y Gymraeg. Gwneir hyn gyda'r bwriad o gryfhau'r berthynas gyda'r darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru sy'n gwsmeriaid UCAS, gan ychwanegu gwerth i'r cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir i randdeiliaid a sicrhau bod y cwmni'n parhau i fod yn ymwybodol o'i amgylchedd busnes. Mae fforymau ymgysylltu a llywodraethu corfforaethol (sy'n cyfarfod bob chwarter) yn sicrhau bod y darparwyr hyn yn cael eu cynrychioli.

- 1.4. Mae fforymau ymgysylltu UCAS hefyd yn sicrhau deialog bellach gyda rhanddeiliaid y sector ehangach sy'n llywio safbwyntiau polisi a gwaith strategol UCAS.
- 1.5. Mae dau nod craidd yn strategaeth UCAS: helpu'r sector i gynyddu cyfranogiad a hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr a chynnig mwy o werth fel y gwasanaeth derbyn ar y cyd yn y DU. Fel rhan o strwythur deuol UCAS, bydd y sefydliad yn canolbwyntio ar gefnogi cyfranogiad a gwella gwerth i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru. Mae'r amcanion a'r gwerthoedd strategol canlynol yn cefnogi datblygiad strategaeth UCAS.

Amcan strategol 1: Gwasanaethau derbyn ar y cyd sy'n hyblyg ac yn ddidrafferth

Amcan strategol 2: Llwybrau personol fel bod pawb yn cael yr un cyfle

Amcan strategol 3: Rhoi'r gallu i gefnogwyr wireddu breuddwydion

Amcan strategol 4: O ddata amrwd i gipolwg go iawn

Gwerthoedd UCAS

- Rhoi lle creiddiol i'r Cwsmer a'r Buddiolwr
- Atebolrwydd, Ymddiriedaeth, Arbenigedd

- 1.6. Caiff UCAS a'i wasanaethau derbyn eu hariannu drwy'r ffi ymgeisio a godir ar ymgeiswyr am gyflwyno cais, y ffi y pen a godir ar ddarparwyr Addysg Uwch a bennir yn ôl nifer yr ymgeiswyr a leolir ym mhob darparwr, ac incwm a gynhyrchir gan UCAS Media, sef is-gwmni masnachol sy'n eiddo'n llwyr i UCAS, sy'n cyfrannu'r rhodd cymorth ar ei elw i'r elusen.
- 1.7. Mae'r cynllun, fel y gwelir isod, yn esbonio'r camau a gymerir i ddarparu deunyddiau/gwybodaeth ategol a gwasanaethau yn y Gymraeg i'r rheini y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddyn nhw ac i'r rheini sy'n dymuno cyflawni eu busnes gydag UCAS yn yr iaith honno. Mae'n rhoi manylion sut y caiff y cynllun ei weithredu, ei fonitro a'i werthuso.

2. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

- 2.1. Mae UCAS yn cydnabod ei gyfrifoldebau o ran cyflwyno cynlluniau a pholisïau newydd. Wrth gynllunio ar gyfer y rhain, gwneir asesiad o'u goblygiadau ieithyddol, a cheir ymrwymiad y dylai polisïau a chynlluniau o'r fath gyd-fynd ag egwyddorion y cynllun hwn.
- 2.2. Bydd hyn yn helpu UCAS i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n bosib, a symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar draws ei holl wasanaethau a sicrhau y ceir cysondeb gyda'r cynllun. Wrth wneud hynny, mae UCAS yn ymrwymo i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun neu a fydd yn effeithio ar safonau'r Gymraeg darparwyr Addysg Uwch Cymru. Dim ond gyda chytundeb y Weithrediaeth a chymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg y caiff newidiadau o bwys eu gwneud i'r cynllun.
- 2.3. Drwy gyswllt rheolaidd â chynrychiolwyr darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru fel rhan o fframweithiau fforwm ymgysylltu a llywodraethu corfforaethol UCAS ac i helpu gyda'i ymrwymiad i gefnogi siaradwyr Cymraeg, bydd UCAS yn gofyn am adborth ar anghenion iaith ei brif gwsmeriaid yng Nghymru. Defnyddir y canfyddiadau i benderfynu ar gamau priodol yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod cynllun UCAS yn cynnal deialog wybodus gyda chymuned o arbenigwyr yng Nghymru a'i fod yn parhau i gyd-fynd â datblygiadau yn y cynlluniau a gynigir gan ddarparwyr addysg Uwch yng Nghymru.
- 2.4. Mae UCAS yn ymrwymo i barhau i ddefnyddio cyfieithydd cymwys i gyfieithu cynnwys ysgrifenedig gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, negeseuon e-bost at ymgeiswyr a gwybodaeth, cyngor a chanllawiau a gyhoeddir ar ucas.com.
- 2.5. Mae UCAS wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn golygu y bydd modd cymharu prydlondeb a lefel gwasanaeth, boed cwsmeriaid UCAS yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr. Caiff hyn ei gyfleu drwy'r dogfennau cynllunio gweithredol.

3. WYNEB CYHOEDDUS UCAS

Y rhyngrwyd

- 3.1. Ar y cyd â'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, mae UCAS wedi creu safle bach dwyieithog y gellir mynd ato drwy dudalen hafan UCAS. Mae'r safle bach yn cynnwys gwybodaeth i ddefnyddwyr Cymraeg am y pynciau isod:

Cyfleoedd pan fyddwch yn astudio yn y Gymraeg a'r hyn sydd ar gael

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at fanteision astudio cymhwyster Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn cynnwys dolenni uniongyrchol sy'n arwain defnyddwyr yn ôl at wefan Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n hyrwyddo cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut mae gwneud cais yn y Gymraeg a thracio eich cais

Golwg gyffredinol o ymgeisio yn y Gymraeg i ddarparwyr Addysg Uwch a sut mae tracio cynnydd cais a gweld llythyrau gweithredol yn y Gymraeg.

Bydd UCAS yn ceisio cynyddu faint o gynnwys sydd ar gael i ymgeiswyr ar y safle bach hwn. Bydd darparu cynnwys yn y Gymraeg hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer darparwyr a chynghorwyr Addysg Uwch UCAS.

- 3.2. Ar Hwb digidol UCAS mae modd i ymgeiswyr cofrestredig ddewis Cymraeg, ac mae hyn wedyn yn dangos labeli maes a help ar y sgrin yn y Gymraeg mewn cais. Mewn achosion pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais i ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru yn unig, mae modd iddyn nhw lenwi pob maes testun rhydd yn y Gymraeg, gan gynnwys eu datganiad personol.

Os yw'r opsiwn hwn wedi'i ddewis, bydd UCAS yn anfon negeseuon e-bost wedi'u sbarduno gan geisiadau (fel neges e-bost croeso a chadarnhad o le) yn y Gymraeg. Mae'r darparwyr Addysg Uwch sydd wedi'u dewis yn gallu gweld y dewis iaith, felly bydd modd iddyn nhw gyfathrebu â'r ymgeisydd yn y Gymraeg.

Gall ymgeiswyr ddewis cwblhau eu cais yn Saesneg ac yna cysylltu ag UCAS i ddiweddarau eu dewis i gael gohebiaeth yn y Gymraeg ar ôl cyflwyno'r cais. Bydd hyn yn galluogi unrhyw ddarparwyr Addysg Uwch a ddewisir yng Nghymru i ddiweddarau eu gohebiaeth uniongyrchol â'r ymgeisydd i fod drwy'r Gymraeg.

- 3.3. Mae'r wybodaeth a ddangosir drwy broses chwilio cyrsiau UCAS yn cael ei darparu gan ddarparwyr Addysg Uwch i roi manylion y cwrs (gan gynnwys gofynion mynediad) i ymgeiswyr. Y nod yw cynnig y

gallu i ddarparwyr ddarparu'r wybodaeth hon yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru i hyrwyddo data eu cyrsiau yn y Gymraeg ar gyfer y gwasanaethau allweddol sy'n defnyddio data cyrsiau, er enghraifft, adnodd chwilio a rhaglenni digidol UCAS.

- 3.4. Bydd hysbysebion dwyieithog yn cael eu harddangos ar dudalen lanio Gymraeg ucas.com.

Sianeli cyfathrebu

- 3.5. Mae UCAS yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg gan ei holl gwsmeriaid a bydd yn sicrhau bod ateb yn cael ei anfon yn y Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol i lythyrau copi caled a gohebiaeth dros e-bost. Mae amseroedd ymateb UCAS ar gyfer llythyrau yr un fath p'un a yw gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg. Os nad oes modd ateb yn llawn o fewn pum diwrnod gwaith, anfonir ateb dros dro yn iaith y llythyr gwreiddiol.
- 3.6. Mae UCAS yn cynnig opsiwn galw'n ôl i gefnogi cyswllt dros y ffôn yn y Gymraeg drwy ddefnyddio aelod staff presennol sy'n ddwyieithog.

Cyfarfodydd cyhoeddus

- 3.7. Nid yw UCAS yn cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pe bai'r sefyllfa hon yn newid yn y dyfodol, byddai'r gwahoddiadau, yr agenda a'r papurau ategol ar gyfer y cyfarfodydd yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

Hunaniaeth gorfforaethol

- 3.8. Gan fod yr acronym 'UCAS' yn cael ei ddefnyddio mor eang, bydd yr elfen hon yn cael ei chadw hyd yn oed mewn cyd-destun dwyieithog. Felly, y fformat safonol o ran defnyddio ein teitl mewn unrhyw ohebiaeth gyda'r cyhoedd yng Nghymru fydd 'UCAS'.

Arwyddion

- 3.9. Bydd unrhyw arwyddion sy'n cael eu creu a'u harddangos gan UCAS ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder, ac amlygrwydd.
- 3.10. Gwneir trefniadau ar gyfer darparu arwyddion dwyieithog cyn trefnu unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus yng Nghymru, a bydd proses yn cael ei chreu i sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith yn gyson.

Hysbysiadau i'r wasg

- 3.11. Bydd unrhyw ddatganiadau i'r wasg a ryddheir yng Nghymru yn unig yn cael eu darparu yn ddwyieithog.

4. RHOI'R CYNLLUN AR WAITH

Dewisiadau cyfathrebu (darparwyr Addysg Uwch)

- 4.1. Yng nghronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid UCAS mae blwch ticio i adnabod y cysylltiadau hynny mewn darparwyr Addysg Uwch sy'n dymuno delio ag UCAS yn y Gymraeg. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi cyfathrebu ysgrifenedig / llafar â'r cyswllt yn y Gymraeg lle bo hynny'n bosibl.

Staffio

Hysbysebion recriwtio staff

- 4.2. Mae UCAS wedi'i leoli yn Cheltenham, ac nid yw'n hawdd recriwtio siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau yr hysbyseb 10% o'n swyddi gwasanaeth i gwsmeriaid i siaradwyr Cymraeg, byddwn yn hysbysebu'r rhain mewn papurau newydd lleol, a bydd UCAS yn defnyddio gwefannau sy'n dangos swyddi gwag Cymraeg ar-lein megis safleswyddi.co.uk.
- 4.3. Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, bydd UCAS yn sicrhau'r canlynol:
- mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer swyddi y mae bod yn rhugl yn y Gymraeg yn ddymunol ar eu cyfer, yn cael eu hysgrifennu yn y Gymraeg yn unig
 - mewn cyhoeddiadau Saesneg eu hiaith sy'n cylchredeg yng Nghymru, bydd yr hysbyseb yn cael ei hysgrifennu yn y Gymraeg yn unig, gyda nodyn esboniadol byr yn Saesneg.
- 4.4. Mae UCAS wedi ymrwymo i wreiddio'r egwyddorion hyn yng ngweithdrefnau ac arferion adnoddau gweithlu'r cwmni.
- 4.5. Bydd UCAS yn asesu gofynion iaith Gymraeg y gwasanaethau y mae UCAS yn eu darparu ac yn nodi'r rolau hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol. Er mwyn sicrhau bod UCAS yn gallu cyflwyno ei wasanaethau yn effeithiol ac yn effeithlon mewn Cymraeg o safon uchel, bydd yn mynd ati hefyd i gynnal archwiliad blynyddol o'i staff i weld faint a phwy sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg), yn ogystal â lefel eu gallu. Bydd yn ymateb i unrhyw brinder drwy ddefnyddio staff, gweithgarwch recriwtio a hyfforddi, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl o fewn y cyfyngiadau staffio presennol.

Dysgu Cymraeg

- 4.6. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ôl amrywiol raddau o allu ac mewn amrywiol sefyllfaoedd gwasanaeth, yn hanfodol i lwyddiant y cynllun hwn. Mae UCAS hefyd yn cydnabod bod y gallu i ddeall a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn sgil gwerthfawr iawn sy'n gallu helpu ei staff i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.
- 4.7. Bydd UCAS yn rhoi'r cynllun hwn ar waith drwy nodi a chefnogi aelodau o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu gallu i siarad Cymraeg.
- 4.8. Mae UCAS yn rhoi pwyslais penodol ar annog staff gwasanaeth cwsmeriaid sy'n debygol o gael cyswllt aml â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg i ddysgu Cymraeg.

Hyfforddiant galwedigaethol

- 4.9. Mae UCAS wedi ymrwymo i feithrin gallu ei staff i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddyn nhw ddod yn gyfarwydd â delio gyda'u maes gweithgaredd proffesiynol gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg.
- 4.10. Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad hwn, bydd UCAS yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg cyn darparu hyfforddiant o'r fath i hwyluso'r broses o weithredu'r cynllun.

Trefniadau gweinyddol

- 4.11. Mae UCAS yn cadarnhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg a'r holl fesurau ynddo wedi cael eu cymeradwyo gan y Weithrediaeth a bod y sefydliad wedi ymrwymo'n llawn wrth iddyn nhw gael eu gweithredu. Prif Weithredwr UCAS fydd â'r cyfrifoldeb dros y cynllun yn y pen draw. Mae rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau/timau eu hunain.
- 4.12. Bydd UCAS yn sicrhau y bydd ei holl staff yn derbyn arweiniad ar y cynllun a chynghor am yr hyn a ddisgwyli'r ganddyn nhw yng nghyd-destun eu rôl. Un elfen allweddol o hyn fydd cyfarwyddiadau clir ar sut y dylai cydweithwyr ymateb pan fydd rhywun yn ffonio ac yn ysgrifennu yn y Gymraeg.
- 4.13. Bydd yr holl gyfieithwyr y bydd UCAS yn eu defnyddio wedi eu cymeradwyo ac wedi cymhwyso'n briodol, a byddan nhw'n gallu darparu gwasanaeth o safon uchel.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran UCAS gan bartion eraill a chan UCAS mewn partneriaeth â chyrff eraill

- 4.14. Bydd UCAS yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun iaith hwn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau newydd neu bresennol a osodir ar gontract.
- 4.15. Pan fydd UCAS yn ymuno â phartneriaeth trydydd parti lle mai corff arall sy'n arwain gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd mewnbwn UCAS i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun iaith Gymraeg.

Monitro

- 4.16. Bydd y Weithrediaeth yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol a fydd yn ei galluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:
- A yw UCAS yn cydymffurfio â'r cynllun?
 - Pa mor dda y mae'n cyflawni hyn?
- 4.17. O bryd i'w gilydd, byddwn hefyd yn gofyn am farn siaradwyr Cymraeg am ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad, a hynny drwy fforymau ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu corfforaethol.
- 4.18. Bydd y broses o fonitro'r cynllun yn strwythuredig ac os bydd yr adroddiad yn canfod unrhyw wendidau, bydd UCAS yn paratoi cynllun gweithredu a fydd yn unioni'r sefyllfa.
- 4.19. Yna, anfonir copi o'r adroddiad a grybwyllir uchod i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- 4.20. Yn ystod trydedd flwyddyn gweithredu'r Cynllun hwn, bydd UCAS yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn gwerthuso'r perfformiad o ran gweithredu'r cynllun dros ei gyfnod o dair blynedd. I adolygu a diweddarau ei Gynllun iaith Gymraeg a chael cymeradwyaeth ar gyfer cyfnodau pellach o weithredu, bydd yr adroddiad hwn yn:
- rhoi golwg gyffredinol ar y perfformiad ynghyd â dadansoddiad thematig ohono gan nodi i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cynllun dros y tair blynedd, o ran darparu gwasanaethau a rheoli'r cynllun

- amlinellu blaenoriaethau UCAS am y tair blynedd ganlynol, ynghyd â chynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer mesurau sydd o fewn cwmpas y cynllun.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd UCAS yn cynnal arolwg bodlonrwydd yn benodol gyda rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg i ganfod eu barn am gwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog.

- 4.21. Bydd yr adroddiad blynyddol, y bydd UCAS yn ei ddarparu i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ar ffurf a gymeradwyir gan y Swyddfa. Bydd yn disgrifio cynnydd o ran gweithredu mesurau'r cynllun yn erbyn y safonau a'r amserlen a gymeradwywyd, a bydd hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau a gafwyd oddi wrth y cyhoedd.

Prif dargedau

- 4.22. Mae manylion y prif dargedau ar gyfer gweithredu'r cynllun yn Atodiad A isod. Bydd yr amrywiol elfennau, sef adrodd, asesu a gwerthuso, yn cynnwys monitro i ba raddau y cyrhaeddwyd y targedau, a bydd hwn yn ganolbwynt arbennig yn yr adroddiad blynyddol i'r Weithrediaeth.

Cyhoeddi gwybodaeth

- 4.23. Bydd UCAS yn adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r cynllun drwy ei fforymau llywodraethu corfforaethol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fel y nodir uchod, bydd y rhain yn cynnwys cymharu'r perfformiad gyda'r safonau a'r targedau a nodir yn y cynllun.
- 4.24. Bydd yr adroddiad blynyddol ar gael drwy'r sianelau arferol, ac fe'i cyflwynir i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr bob blwyddyn.
- 4.25. Os oes angen, rhoddir esboniad hefyd o'r rhesymau dros beidio â chyflawni targedau.

Cyhoeddusrwydd

- 4.26. Bydd UCAS yn cyhoeddi ei gynllun ar ei wefan a bydd yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo ei fodolaeth gan gynnwys drwy ei fforymau llywodraethu corfforaethol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth lawn am i ba raddau y gall y cyhoedd ddelio gydag UCAS yn y Gymraeg, a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Cwynion

- 4.27. Mae gan UCAS drefn gwyno sydd wedi hen ennill ei phlwyf, a bydd yn delio fel mater o drefn gydag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau Cymraeg UCAS. Dylid cyfeirio pob cwyn at:

Y Tîm Cwynion

UCAS

Rosehill

New Barn Lane

Cheltenham

Swydd Gaerloyw

GL52 3LZ

E-bost: complaints@ucas.ac.uk

ATODIAD A – CYNLLUN GWEITHREDU

Caiff y cynllun ei weithredu dros gyfnod o dair blynedd i ddechrau o fis Mehefin 2025. O ran cyd-destun, mae'r model cynllunio datblygiad technegol a fabwysiadwyd gan UCAS ers 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i dimau ymrwymo i gyflawni newidiadau dri mis ymlaen llaw fel rhan o ymarferion cynllunio chwarterol. Rhoddir dyddiadau targed pan fydd y gwaith cysylltiedig wedi'i gwblhau.

Pwynt yn y cynllun	Disgrifiad	Cyfrifoldeb	Dyddiad targed
3.1	Set gyntaf o gynnwys ychwanegol i'r ymgeiswyr i gael ei chyfieithu i'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn y safle bach dwyieithog presennol, gan ymestyn hyn fel sy'n berthnasol yn ystod cyfnod y cynllun	Tîm y wefan/ADT	01/06/25
3.1	Cynnwys Prentisiaethau yng Nghymru i fod ar gael yn y Gymraeg	Tîm y wefan/ADT	31/05/25 i'w gadarnhau
3.2	Y canllawiau ar y sgrin sy'n ymwneud ag opsiwn dewis iaith Gymraeg i'w diweddarau i sicrhau eu bod yn gywir. Bydd y canllawiau yn cael eu harddangos yn ddwyieithog	Tîm technegol/ADT	30/06/25 i'w gadarnhau
3.2	Adeiladu ar ddatblygiadau sy'n deillio o brosiect Gwasanaeth Data Cyfeirio, i asesu pa mor ymarferol yw casglu/arddangos teitlau cymwysterau yn y Gymraeg yn y rhaglen	Tîm technegol	31/12/27 i'w gadarnhau
3.3	Adeiladu ar ddatblygiadau sy'n deillio o brosiect Ailstrwythuro Data Cyfleoedd i weld a oes modd galluogi darparwyr Addysg Uwch i ddarparu data am gyrsiau (gan gynnwys gofynion mynediad a phroffiliau cyrsiau) yn y Gymraeg a'r Saesneg, a hefyd tynnu sylw at gyrsiau sy'n cael eu 'dysgu yn y Gymraeg'	Tîm technegol	31/12/27 i'w gadarnhau
3.3	Adeiladu ar yr adborth o'r arolwg a gynhaliwyd gydag ymgeiswyr a	Tîm technegol	31/12/27 i'w gadarnhau

	rhanddeiliaid; datblygu mwy o wybodaeth Gymraeg ar y we		
3.4	Sicrhau bod hysbysebion dwyieithog ar y dudalen lanio Gymraeg ar wefan UCAS	Tîm cyfryngau	31/01/26
4.12	Hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg i holl weithwyr UCAS pan fydd wedi'i gymeradwyo. Bydd y cam gweithredu hwn yn sicrhau bod pob cydweithiwr yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau o ran cyflawni'r cynllun, gan gynnwys sut mae ymateb pan fydd siaradwr Cymraeg yn anfon gohebiaeth ysgrifenedig neu'n cyfathrebu ar lafar, gweithio gyda thrydydd partïon / partneriaid a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus	Pennaeth Gweithrediadau	01/06/25
4.16 – 4.21	Monitro datblygiad a pha mor effeithiol yw gwasanaeth ymgeisio, cyhoeddiadau a gwefan UCAS, drwy gynnal arolygon gydag ymgeiswyr a rhanddeiliaid allweddol	Timau Cipolwg a phrofiad cwsmeriaid	31/01/26
4.5	Archwiliad blynyddol o wasanaethau, cynnyrch a staff UCAS, i nodi'r angen am ragor o gymorth i'r gwasanaeth Cymraeg	Swyddog Cynhwysiant	31/01/26